Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Glan Conwy
# Ffordd Top Llan
# Glan Conwy
# Conwy
# LL28 5ST

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 21/03/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Glan Conwy ym mhentref gwledig Llansanffraid yng Nghonwy. Mae bron pob un o'r disgyblion yn byw yn lleol, a daw ychydig ohonynt o'r ardal gyfagos. Mae 119 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 11 yn y dosbarth meithrin rhan-amser. Bu cynnydd nodedig yn niferoedd y disgyblion ers yr arolygiad diwethaf. Mae pedwar dosbarth oedran cymysg yn yr ysgol, yn cael eu haddysgu gan bum athro amser llawn.

Mae tua 14% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, ac mae hyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol yn nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 30% o ddisgyblion, sydd uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Nid oes datganiad o anghenion addysgol arbennig gan yr un disgybl. Mae pob un o'r disgyblion o darddiad gwyn Prydeinig. Ychydig iawn o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref.

Penodwyd y pennaeth ym Medi 2010, ac yn Ebrill 2009 y cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Glan Conwy yn 2016-2017 yw £3,675. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yng Nghonwy yw £14,063 a'r lleiafswm yw £3,225. Mae Ysgol Glan Conwy yn safle 41 o'r 55 ysgol gynradd yng Nghonwy o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

## Perfformiad presennol

**Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:**

- Rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn wrth iddynt symud drwy'r ysgol
- Rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni safonau llythrennedd a rhifedd uchel, ac yn datblygu'r rhain yn dda mewn meysydd dysgu eraill
- Rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni safonau da mewn Cymraeg
- Agweddau disgyblion at ddysgu yn gadarnhaol, a bod y rhan fwyaf ohonynt yn ymddwyn yn dda
- Ansawdd yr addysgu yn gyson effeithiol a bod perthynas weithio gadarnhaol iawn rhwng disgyblion ac oedolion yn yr holl ddosbarthiadau
- Y cymorth a'r arweiniad a roddir i ddisgyblion yn effeithiol

## Rhagolygon gwella

**Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:**

- Arweinwyr yr ysgol a staff eraill yn rhannu dealltwriaeth gyffredin o flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella
- Gwybodaeth sicr gan lywodraethwyr am gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella
- Cynllun gwella'r ysgol yn canolbwyntio'n dda ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion
- Yr ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid a bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion
- Yr ysgol yn rheoli ac yn monitro ei chyllid yn dda i sicrhau bod blaenoriaethau'n cael eu hariannu'n briodol

## Argymhellion

A1 Gwella llawysgrifen a sillafu disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

A2 Gwella medrau trin data disgyblion mewn TGCh yng nghyfnod allweddol 2

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae tua hanner y disgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda lefelau medrau islaw hynny a ddisgwylir am eu hoedran. Mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn wrth iddynt symud drwy'r ysgol, ac maent yn cyflawni'r safonau disgwyliedig. Yn eu gwersi, ac wrth drafod eu gwaith, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cofio dysgu blaenorol yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn y maent wedi'i ddysgu.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad gyda hyder mewn ystod eang o sefyllfaoedd â staff, ymwelwyr ac â'i gilydd, ac yn datblygu'u medrau llefaredd a gwrando yn dda. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn hyderus o flaen eu cyfoedion ac yn cyfrannu'n dda at drafodaethau drwy fynegi'u barn yn glir ac aeddfed. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrando'n ofalus ar athrawon a'u cyfoedion, ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig.

Mae agwedd gadarnhaol at ddarllen gan bron pob un o'r disgyblion. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn defnyddio ystod o strategaethau i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn dda. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen gyda mwy a mwy o ruglder, cywirdeb a dealltwriaeth. Maent yn siarad yn rhwydd am lyfrau ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gymeriadau ac awduron. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'u medrau darllen yn effeithiol. Maent yn darllen yn ddeallus a gyda mynegiant, ac yn trafod cynnwys ac yn mynegi barn yn hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn hyderus am eu hoff awduron, ac yn rhestru'r llyfrau y maent wedi'u darllen gyda gwybodaeth a dealltwriaeth. Maent yn defnyddio'u medrau darllen yn effeithiol i ymchwilio i wybodaeth o lyfrau, a thrwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), er enghraifft wrth ddod o hyd i wybodaeth am yr Ail Ryfel Byd ac ysgrifennu bywgraffiadau pobl enwog.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu cynnar. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n llwyddiannus at ystod o ddibenion, gan ddefnyddio brawddegau llawn, ystod dda o eiriau disgrifiadol ac yn atalnodi eu gwaith yn fwyfwy cywir. Enghraifft dda yw'r gwaith ar gymharu bywyd yn yr India â Chymru. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n dda ac yn defnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddeg. Maent yn datblygu'r defnydd o atalnodi yn briodol ac yn gwneud dewisiadau diddorol o ran geirfa. Maent yn cymhwyso'u medrau ysgrifennu yn dda i gynhyrchu darnau estynedig mewn llawer o feysydd y cwricwlwm. Maent yn addasu'u harddull yn dda i fodloni gwahanol ddibenion, wrth ddisgrifio dull gwyddonol, cymharu bywydau'r cyfoethog a'r tlawd yn oes y Tuduriaid, ac ysgrifennu erthygl papur newydd am Dryweryn. Fodd bynnag, nid yw llawysgrifen a sillafu'r disgyblion yn ddigon cyson a gofalus bob amser.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'u medrau rhif yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg. Maent yn defnyddio strategaethau adio, tynnu, rhannu a lluosi syml yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'u medrau rhifedd yn bwrpasol ar draws y meysydd ddysgu, er enghraifft wrth gasglu gwybodaeth am y modd y mae disgyblion yn teithio i'r ysgol, a'i chyflwyno'n gywir ar graff bar. Maent yn defnyddio unedau mesur safonol yn fedrus mewn amrywiaeth o dasgau, er enghraifft, i bwyso cynhwysion i wneud dyn bach sinsir.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn parhau i ddatblygu'u medrau mathemategol yn dda. Maent yn defnyddio strategaethau adio, tynnu, rhannu a lluosi yn hyderus i ddatrys problemau. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o rif a gwerth lle, ac mae llawer yn cyflawni cyfrifiadau pen yn gyflym a hyderus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwybod beth yw'r berthynas rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cymhwyso'r medrau a ddysgwyd ganddynt mewn gwersi mathemateg yn effeithiol ar draws meysydd eraill o'r cwricwlwm i ddatrys ystod o broblemau bywyd go iawn. Maent yn cofnodi'u canfyddiadau yn rhesymegol ac yn esbonio'u rhesymeg yn hyderus, er enghraifft pan fyddant yn ymchwilio i faint o rym sydd ei angen i symud esgidiau ymarfer o wahanol feintiau.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'u medrau TGCh. Maent yn defnyddio amrywiaeth o raglenni i lunio pictogramau a graffiau bar i ddangos, er enghraifft, y modd y mae disgyblion yn teithio i'r ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio prosesu geiriau yn hyderus i greu pamffledi a phosteri i gyflwyno gwybodaeth am beryglon defnyddio tân gwyllt. Mae llawer yn creu dilyniant o gyfarwyddiadau i reoli tegan rhaglenadwy yn hyderus. Mae bron pob disgybl yn defnyddio llygoden a bysellfwrdd yn fedrus.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu'n briodol ar eu medrau presennol mewn TGCh. Maent yn defnyddio'r rhyngrwyd yn hyderus i ymchwilio i wybodaeth, ac maent yn cyflwyno'u canfyddiadau yn glir, er enghraifft i gynhyrchu ffeil ffeithiau am Roald Dahl. Fodd bynnag, nid yw medrau trin data'r disgyblion i gynhyrchu cronfeydd data a'u dehongli wedi'u datblygu'n ddigonol. Ar draws yr ysgol, mae dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd e-ddiogelwch yn gadarn.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu medrau yn y Gymraeg. Maent yn ymateb yn gywir i gyfarwyddiadau a chwestiynau, ac yn defnyddio ystod gyfarwydd o ymadroddion yn briodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu'n llwyddiannus ar y gwaith yn y Cyfnod Sylfaen, ac yn defnyddio geirfa estynedig a phatrymau brawddegau yn dda wrth ateb cwestiynau amdanynt eu hunain a'r llyfrau y maent wedi'u darllen. Mae medrau darllen ac ysgrifennu rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda wrth iddynt symud drwy'r ysgol, ac maen ganddynt ddealltwriaeth dda o'r hyn y maent wedi'i ddarllen. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ysgrifennu brawddegau syml yn gywir i ddisgrifio cymeriadau o lyfrau cyfarwydd, ac maent yn defnyddio'r presennol a'r gorffennol yn briodol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu darnau hwy i safon dda, er enghraifft wrth ysgrifennu eu newyddion am yr wythnos.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. Gall hyn gael cryn effaith ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion ar y deilliant disgwyliedig mewn medrau llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 25% gwaelod. Mae perfformiad ar y lefel uwch wedi bod islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg bob blwyddyn.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg wedi amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 25% uchaf a'r 25% gwaelod o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn y 25% uchaf yn y tair o'r pedair blynedd diwethaf. Yn gyffredinol, mae perfformiad ar y lefel uwch wedi bod islaw perfformiad ysgolion tebyg.

Ychydig iawn o ddisgyblion sydd wedi bod yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn y pedair blynedd diwethaf, felly nid yw'n ystyrlon gwneud cymariaethau rhwng eu perfformiad nhw a pherfformiad disgyblion eraill.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae merched yn tueddu perfformio'n well na'r bechgyn o ran y deilliant disgwyliedig mewn llythrennedd, ond mae perfformiad wedi amrywio mewn rhifedd. Nid oes unrhyw wahaniaeth nodedig yn y deilliant uwch.

Yng nghyfnod allweddol 2, nid oes unrhyw wahaniaeth nodedig rhwng perfformiad bechgyn a merched ar y lefel ddisgwyliedig neu'r lefel uwch mewn unrhyw bwnc.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi i gael help a chyngor. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini. Maent yn teimlo bod y staff yn eu gwerthfawrogi, ac mae hyn yn cynyddu'u hunanhyder ac yn cynorthwyo eu cynnydd wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o ba mor dda maent yn gwneud a sut i wella eu gwaith. Mae hyn yn sicr iawn erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae safonau ymddygiad yn dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol, ac mae bron pob disgybl yn foesgar a chwrtais. Maent yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion, ac yn gweithio'n hapus â'i gilydd.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn datblygu'u rôl yn briodol. Mae'r cyngor ysgol yn chwarae rhan weithgar yn codi arian at elusennau fel Plant mewn Angen, Water Aid a nyrsys Macmillan. O ganlyniad, maent yn deall bod yna bobl eraill nad ydynt mor ffodus â nhw. Mae'r eco-bwyllgor yn weithgar yn cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd arbed ynni ac ailgylchu gwastraff.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'u medrau cymdeithasol yn effeithiol ac yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r pentref fel casglu sbwriel a phlannu blodau.

Maent yn cymryd rhan yn nigwyddiadau'r capel a'r eglwys yn ystod yr Ŵyl Ddiolchgarwch a'r Pasg. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygu gwerthfawrogiad disgyblion o'r gymuned y maent yn byw ynddi.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae presenoldeb wedi bod uwchlaw'r lefel mewn ysgolion tebyg bob blwyddyn. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Mae cynlluniau'r cwricwlwm yn datblygu medrau disgyblion yn effeithiol wrth iddynt symud o'r Cyfnod Sylfaen i gyfnod allweddol 2. Maent yn darparu amrywiaeth o brofiadau dysgu difyr sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn dda.

Mae'r ysgol yn cynnig llawer o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae cynllunio thematig manwl yn creu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'r medrau hyn yn dda mewn ystod o gyd-destunau gwahanol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r rhan fwyaf o agweddau ar TGCh yn sicr, er nad yw cyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddatblygu'u medrau trin data wedi'u datblygu gystal. Mae rhaglenni ymyrraeth i helpu disgyblion sydd ar ei hôl hi o ran eu medrau llythrennedd a rhifedd yn bodloni'u hanghenion yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol wedi datblygu'r amgylchedd awyr agored yn arbennig o dda i ddarparu ystod o weithgareddau diddorol a heriol i ddisgyblion. Mae'r rhain yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu medrau creadigol a medrau datrys problemau'r disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn effeithiol iawn. Mae pob un o'r staff yn darparu modelau iaith da i'r disgyblion ac maent yn defnyddio'r Gymraeg yn llwyddiannus ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae athrawon yn defnyddio'r Gymraeg yn llwyddiannus ym mron pob gwers ac yn cyflwyno tua chwarter o'r profiadau dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r dimensiwn Cymreig yn nodwedd gadarnhaol yn yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn astudio chwedlau gwerin poblogaidd fel Nant Gwrtheyrn a Chantre'r Gwaelod, ac yn dysgu am waith cerddorion o Gymru, fel Karl Jenkins.

Caiff disgyblion gyfleoedd da i ddysgu sut i fyw'n gynaliadwy drwy weithgareddau ailgylchu ac arbed ynni yn ddyddiol. Mae'r cwricwlwm yn darparu profiadau addas i ddisgyblion ddysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang, trwy waith yn yr ystafell ddosbarth yn gysylltiedig â Masnach Deg a thrwy gefnogi nifer o elusennau gwahanol, er enghraifft Water Aid.

**Addysgu: Da**

Ceir perthynas weithio effeithiol rhwng oedolion a disgyblion sy'n meithrin amgylchedd dysgu llwyddiannus. Mae gwybodaeth bynciol gadarn gan athrawon.

Maent yn cysylltu eu gwersi’n dda â dysgu blaenorol disgyblion, ac yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu yn fedrus i ennyn diddordeb disgyblion. Maent yn cynllunio gweithgareddau difyr sy’n annog disgyblion i gyfranogi a gweithio’n galed mewn grwpiau ac yn annibynnol. Mae’r staff yn gofyn cwestiynau pwrpasol i gyfnerthu ac ymestyn dealltwriaeth disgyblion ac yn eu hannog i ddefnyddio’u medrau meddwl trwy gydol y wers. Mae pob un o’r oedolion yn hyrwyddo Cymraeg cywir yn gyson.

Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn cyfrannu’n effeithiol at ansawdd y dysgu ac yn darparu cymorth da yn ôl anghenion disgyblion i’w helpu i gwblhau eu tasgau’n llwyddiannus.

Darperir adborth llafar defnyddiol gan athrawon yn ystod gwersi. Maent yn marcio gwaith disgyblion yn effeithiol, gan roi cydbwysedd da o adborth cadarnhaol a sylwadau iddynt sy’n eu helpu i wybod sut i wella eu gwaith. Mae gweithdrefnau da ar waith i ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill.

Ceir gweithdrefnau effeithiol yn yr ysgol i olrhain cynnydd disgyblion, sy’n cynnwys defnyddio profion safonedig, asesiadau athrawon a chraffu ar waith disgyblon. Mae athrawon yn defnyddio’r wybodaeth yn briodol i osod targedau penodol a thasgau addas i’r disgyblion fel eu bod yn gallu symud ymlaen i’r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae’r ysgol yn rhoi gwybodaeth dda i rieni am gynnydd eu plant. Mae adroddiadau ysgrifenedig blynyddol am gynnydd disgyblion yn fanwl ac o ansawdd da.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Caiff prosesau gofal, cymorth ac arweiniad effeithiol yr ysgol effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Ceir trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn deall sut i gadw’n ddiogel. Mae enghreifftiau da yn cynnwys annog disgyblion i fwyta ffrwythau’n rheolaidd ac i wneud dewisiadau iach amser cinio.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad personol, ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus trwy ddarparu cyd-addoli rheolaidd a thrwy weithgareddau cwricwlwm fel y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol.

Mae cysylltiadau cadarn a chefnogol gan yr ysgol â nifer o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol, gan gynnwys yr heddlu, seicolegwyr a’r gwasanaeth lleferydd ac iaith. Mae’r ysgol yn defnyddio’u cyngor a’u cefnogaeth ar gyfer unigolion ag anghenion ychwanegol i ddarparu arweiniad o ansawdd da i ddisgyblion a rhieni, ac i ddatblygu arbenigedd staff i ddiwallu anghenion penodol disgyblion sy’n agored i niwed.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff yn nodi anghenion disgyblion yn gynnar, yn cynnig cymorth ychwanegol ac yn gweithredu rhaglenni ymyrraeth pwrpasol ac effeithiol. Maent yn gosod targedau clir a chyraeddadwy mewn cynlluniau addysg unigol, a chaiff rhieni a disgyblion eu cynnwys yn y broses o’u llunio a’u hadolygu.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar, lle mae staff yn trin disgyblion yn deg. Mae'n gymuned gynhwysol a chroesawgar iawn, lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus. Rhoddir pwyslais priodol ar greu ethos lle mae parch y naill at y llall yn un o'r gwerthoedd craidd. Caiff parch at amrywiaeth ei hyrwyddo'n llwyddiannus trwy waith amrywiol, gan gynnwys astudio gwledydd eraill. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith yn yr ysgol i ddelio'n effeithiol â rhagfarn o unrhyw fath ac unrhyw fwlio, pe bai'n digwydd.

Mae adeiladau'r ysgol yn bodloni anghenion ei disgyblion yn briodol. Ceir digon o le mewn ystafelloedd dosbarth i gyflwyno pob agwedd ar y cwricwlwm. Mae adnoddau o ansawdd da ar gyfer yr holl feysydd dysgu yn cefnogi'r addysgu a'r dysgu yn effeithiol. Ceir adnoddau arbennig o dda yn yr ysgol ar gyfer datblygu TGCh. Mae staff wedi datblygu mannau dysgu awyr agored yn greadigol i wneud defnydd effeithiol o'r lle sydd ar gael. Mae pob un o'r athrawon yn gwneud defnydd llawn o'r rhain i symbylu a chefnogi datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, medrau cymdeithasol a medrau datrys problemau disgyblion.

Mae arddangosiadau yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn dda, ac yn cyfrannu'n sylweddol at amgylchedd dysgu croesawgar. Mae staff yn annog disgyblion i ymfalchïo yn eu cyflawniadau.

Mae safonau glendid yn uchel, ac mae adeilad a thir yr ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Mae safle'r ysgol yn ddiogel ar gyfer disgyblion.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae diwylliant o gydweithio a gwaith tîm yn datblygu'n dda yn yr ysgol. Mae pob un o'r arweinwyr ac aelodau'r staff yn ymwybodol o'u rolau ac maent yn cydweithredu'n dda i greu ethos diogel a gofalgar ar gyfer disgyblion. Maent yn rhannu cyd-ddealltwriaeth o flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod gwaith disgyblion.

Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n glir flaenoriaethau ar gyfer gwella, ac maent yn sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau i gyflawni blaenoriaethau'r ysgol. Mae staff yn elwa o lawer o gyfleoedd i arsylwi a rhannu arfer dda gydag ysgolion eraill yn yr ardal. Mae'r ffocws ar godi safonau, trwy arfarnu cadarn, yn sicrhau bod perfformiad yr ysgol yn cael ei herio'n rheolaidd gan bob aelod o'r staff a'r llywodraethwyr.

Mae trefniadau rheoli perfformiad trwyadl yn cynnig cyfleoedd priodol i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff. Mae rhaglen o hyfforddiant perthnasol a phenodol yn cyfrannu'n dda at welliannau yn yr addysgu a'r dysgu.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn o’r ysgol ac yn ymgymryd â’u cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae llawer o lywodraethwyr yn ymweld â’r ysgol i ymgymryd â gweithgareddau monitro a thrafod darpariaeth a safonau gydag arweinwyr a’r staff. O ganlyniad, mae ganddynt wybodaeth gadarn am gryfderau’r ysgol a’r blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae hyn yn galluogi’r llywodraethwyr i herio’r ysgol yn effeithiol a dwyn arweinwyr i gyfrif am ei pherfformiad.

Mae’r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i fentrau addysgol lleol a chenedlaethol, yn enwedig mewn perthynas â chodi safonau mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh. Un enghraifft dda yw’r ffordd y caiff disgyblion eu hannog i ddefnyddio’u medrau yn bwrpasol ac yn effeithiol ar draws y cwricwlwm.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae’r weithdrefn hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac yn galluogi staff i ddeall cryfderau’r ysgol a meysydd i’w gwella yn dda. Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl sy’n seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys arsylwadau yn yr ystafell ddosbarth a chraffu ar waith disgyblion. Caiff ei ddefnyddio’n bwrpasol i bennu blaenoriaethau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mae’r adroddiad yn rhy ddisgrifiadol mewn rhai meysydd, ac nid yw’n ddigon arfarnol bob amser.

Mae barnau staff, rhieni a disgyblion yn cefnogi’r broses arfarnu yn briodol. Rhoddir sylw da i lais y disgybl drwy sesiynau amser cylch, cynghorau’r ysgol a holiaduron. Un enghraifft dda yw’r ffordd y mae disgyblion yn defnyddio’r ‘blwch pryderon’ i hysbysu staff ac uwch arweinwyr ynglŷn â materion pryder.

Mae cyswllt clir rhwng deilliannau’r broses hunanarfarnu a’r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu’r ysgol. Mae’r cynllun yn canolbwyntio’n dda ar godi safonau a gwella’r ddarpariaeth i ddisgyblion. Mae’n cynnwys ystod briodol o gamau perthnasol ac y nodi aelodau staff sy’n gyfrifol am eu cyflawni. Mae’n cynnwys meini prawf llwyddiant heriol a graddfeydd amser penodol ar gyfer cwblhau tasgau. Mae’r ysgol yn monitro cynnydd yn effeithiol. Mae camau diweddar i wella medrau ysgrifennu a rhifedd disgyblion wedi bod yn llwyddiannus.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol gydag ystod o bartneriaid. Mae’r gwaith hwn yn ymestyn profiadau dysgu disgyblion yn llwyddiannus a chaiff effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth bwrpasol â rhieni. Caiff rhieni wybodaeth gyson gan staff am ddigwyddiadau’r ysgol drwy negeseuon testun, negeseuon e-bost a llythyrau. Mae’r ysgol yn rhoi gwybodaeth werthfawr i rieni am y modd y mae eu plant yn dysgu drwy gynnal gweithdai, mewn rhifedd a darllen er enghraifft. Mae hyn yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth rhieni o’r arddulliau addysgu a ddefnyddir gan yr ysgol.

Mae’r gymdeithas rhieni ac athrawon yn codi arian yn rheolaidd er mwyn cyfoethogi’r profiadau a ddarperir i ddisgyblion, er enghraifft, i gynorthwyo’r ysgol i dalu cost ymweliadau addysgu. Gwna’r ysgol ddefnydd da o’r arbenigedd sydd yn y gymuned

leol; er enghraifft, mae'r swyddog heddlu lleol yn rhoi cyngor i ddisgyblion ar sut i gadw'n ddiogel, ac mae crochenydd lleol yn helpu i ddatblygu medrau creadigol disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos â'r grŵp cyn-ysgol sydd ar y safle i sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym yn y dosbarth meithrin.  Yn yr un modd, mae trefniadau pontio effeithiol gydag ysgolion uwchradd lleol yn sicrhau dilyniant a pharhad ym mhrofiadau dysgu disgyblion wrth iddynt symud i'r cam nesaf yn eu haddysg.  Mae'r gwaith i safoni a chymedroli asesiadau athrawon yn gynhwysfawr, ac mae hyn yn sicrhau dilysrwydd lefelau a ddyfernir i ddisgyblion.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae digon o staff addysgu a staff cymorth profiadol i ymdrin â phob agwedd ar waith yr ysgol.  Mae cyfraniad cefnogol cynorthwywyr cymorth dysgu yn un o gryfderau'r ysgol.  Mae'r staff hyn yn cynnig cymorth gwerthfawr i athrawon ac yn helpu i wella cyrhaeddiad disgyblion, yn enwedig medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae pob un o'r staff yn cael mynediad i raglenni datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol, sy'n gysylltiedig â'u hanghenion dynodedig a thargedau ysgol gyfan. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau a'r ddarpariaeth, yn enwedig o ran gwella medrau ysgrifennu disgyblion ar draws y cwricwlwm.  Mae pob athro yn cael amser cynllunio, paratoi ac asesu priodol bob wythnos yn unol â'r gofynion statudol.

Mae'r ysgol yn rheoli a monitro ei chyllid yn dda, ac yn gwneud defnydd da o'i chyllideb ddirprwyedig a grantiau eraill.  Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod blaenoriaethau gwella'r ysgol yn derbyn cyllid priodol.  Mae'r gwarged presennol yn y cyllid wedi'i glustnodi i ddarparu staff ychwanegol er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd yn niferoedd y disgyblion.  Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i ariannu staff ychwanegol sy'n darparu ystod eang o raglenni ymyrraeth targedig er mwyn gwella medrau darllen a rhifedd disgyblion sy'n agored i niwed ymhellach.

O ystyried y deilliannau a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6622225 - Ysgol Glan Conwy**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 112 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.6 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 11 | 11 | 9 | 19 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 63.6 | 81.8 | 77.8 | 52.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 11 | 9 | 19 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 72.7 | 81.8 | 100.0 | 63.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 18.2 | 22.2 | 5.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 11 | 9 | 19 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 88.9 | 68.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 27.3 | 27.3 | 22.2 | 5.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 11 | 11 | 9 | 19 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 90.9 | 100.0 | 88.9 | 84.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 36.4 | 27.3 | 55.6 | 5.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6622225 - Ysgol Glan Conwy**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 112 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.6 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 12 | 9 | 10 | 8 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 83.3 | 66.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 9 | 10 | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.3 | 66.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 41.7 | 22.2 | 60.0 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 1 | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | * | * | * |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 100.0 | * | * | * |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 9 | 10 | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 66.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 41.7 | 33.3 | 70.0 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 9 | 10 | 8 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 66.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 41.7 | 33.3 | 40.0 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 49 | 48<br>98%<br>98% | 1<br>2%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 49 | 49<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 49 | 48<br>98%<br>97% | 1<br>2%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 49 | 49<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 49 | 44<br>90%<br>96% | 5<br>10%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 49 | 49<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 49 | 49<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 49 | 48<br>98%<br>98% | 1<br>2%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 49 | 46<br>94%<br>91% | 3<br>6%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 48 | 45<br>94%<br>95% | 3<br>6%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 48 | 31<br>65%<br>77% | 17<br>35%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 49 | 46<br>94%<br>84% | 3<br>6%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 15 | 7 | 6 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 47% | 40% | 13% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 15 | 9 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 15 | 11 | 3 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 73% | 20% | 7% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 15 | 8 | 5 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 53% | 33% | 13% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 13 | 3 | 9 | 1 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 23% | 69% | 8% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 15 | 9 | 4 | 2 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 27% | 13% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 15 | 8 | 6 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 53% | 40% | 7% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 14 | 6 | 7 | 1 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 43% | 50% | 7% | 0% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 15 | 8 | 4 | 2 | 1 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 53% | 27% | 13% | 7% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 14 | 7 | 6 | 1 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 50% | 43% | 7% | 0% | | |
| | | 60% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 15 | 7 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 47% | 53% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 14 | 9 | 4 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 64% | 29% | 7% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 15 | 7<br>47% | 6<br>40% | 2<br>13% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 15 | 9<br>60% | 2<br>13% | 4<br>27% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 13 | 5<br>38% | 5<br>38% | 3<br>23% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 14 | 7<br>50% | 4<br>29% | 3<br>21% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 7 | 1<br>14% | 4<br>57% | 1<br>14% | 1<br>14% | 7 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 15 | 9<br>60% | 3<br>20% | 2<br>13% | 1<br>7% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 13 | 8<br>62% | 3<br>23% | 2<br>15% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mervyn Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Rosemarie Wallace | Arolygydd Cymheiriaid |
| Eifiona Price Williams | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.